# Stori Dylan yn dysgu am arian - Rhan un

Mewn castell hardd yng Nghymru mae draig ifanc yn byw. Ei enw yw Dylan. Mae Dylan yn garedig, ac yn chwilfrydig iawn! Mae'n edrych allan o'i ffenest ar y pentref islaw ac mae ganddo lawer o gwestiynau am fywydau'r bobl sy'n byw yno. Mae'n gweld pobl yn dringo i'w ceir yn y bore ac yn dod adref yn y prynhawn, ac mae'n meddwl tybed i ble maen nhw'n mynd? Mae'n gweld pobl yn cerdded i mewn i adeiladau ac yn dod allan gyda bagiau. Mae'n meddwl tybed o ble mae'r bagiau yn dod, a beth sydd ynddyn nhw?

Un diwrnod, mae'n penderfynu ymweld â'r pentref i gael gwybod mwy. Mae'n sylwi ar arwydd ar adeilad sy'n dweud 'Siop y Pentref'. Mae pobl yn cymryd eitemau o'r silffoedd ac yn mynd at y cownter. Maen nhw'n estyn i'w bagiau a'u pocedi ac yn tynnu disgiau sgleiniog rhyfedd allan a dail bach plastig lliwgar. Mae'n gwylio pobl un ar ôl y llall, yn casglu'r eitemau ac yn eu cyfnewid am y tocynnau bach rhyfedd hyn.

Mae Dylan yn sylwi ar injan dân hardd, sgleiniog ar y silff. Wedi ei ysgrifennu ar y bocs mae 'sŵn fel seiren go iawn', 'yn chwistrellu dŵr' ac 'ysgol y gallwch ei chodi'. Dyma'r tegan harddaf a welodd Dylan erioed.

Mae angen hwn arna i, mae Dylan yn sibrwd wrtho'i hun.

Mae'n sylweddoli y bydd angen rhai o'r disgiau a'r dail sgleiniog arno er mwyn ei gael. (1)

Mae'n cerdded allan o'r pentref i'r goedwig. Mae'n edrych ar bob coeden ond nid oes gan yr un ohonyn nhw y math cywir o ddail. Mae'n penderfynu cymryd y ddeilen fwyaf a disgleiriaf y gall ei gweld. Mae'n hedfan adref ac yn estyn ei jar o dopiau poteli ac yn rhuthro yn ôl i'r siop. Mae'n cerdded yn dalog i'r siop yn wên o glust i glust, yn cipio'r injan dân ac yn sgipio at y cownter.

"Helo," meddai'r fenyw y tu ôl i'r cownter.

"Nid wyf i wedi eich gweld chi o'r blaen. Rhiannon ydw i. Beth yw eich enw chi?"

Mae Dylan yn falch bod gwraig y siop mor glên. "Fy enw i yw Dylan," meddai.

"Fe hoffwn i'r injan dân yma. A gaf i hi?"

"Mae'n rhaid i chi dalu amdani," eglurai. "Mae'n costio £10."

"Nid wyf i'n deall," meddai Dylan gan wgu. "Beth yw punt a beth yw cost?"

Mae Rhiannon yn gwenu. "Mae'n iawn," meddai hi, gan dawelu meddwl Dylan. "Gallaf i eich helpu." (2)

"Y gost yw'r hyn y mae'n rhaid i chi ei rhoi yn gyfnewid am rywbeth. Gallwn i ddweud y bydd y lolipop yma yn costio un wên. Os rhowch chi wên i mi, fe wna i roi lolipop i chi yn gyfnewid."

Mae gwên enfawr yn ymddangos ar wyneb Dylan, ac mae Rhiannon yn rhoi lolipop iddo. Mae Dylan yn cofleidio'r injan dân ac yn gwenu unwaith eto.

Mae Rhiannon yn chwerthin. "Mae arna i ofn bod yr injan dân yn costio mwy na gwên."

Mae Dylan yn gosod ei ddail a'i dopiau poteli ar y cownter ac yn edrych i fyny yn obeithiol.

"Mae hyn yn annwyl iawn," meddai Rhiannon dan wenu, "ond mae'n rhaid i chi dalu am y tegan gydag arian. Arian yw'r hyn rydym ni'n ei ddefnyddio yn gyfnewid am bethau. Mae pris yn cael ei roi i bopeth a dyna'i gost. Mae pobl yn talu'r swm yna o arian. Edrychwch, gadewch i mi ddangos i chi." Mae Rhiannon yn agor y til ac yn tynnu darnau arian a phapurau allan i ddangos i Dylan. Mae arian yn cynnwys darnau arian a phapurau.

Y darnau arian hyn yw'r rhai sydd â'r gwerth lleiaf... dyna un geiniog, a dwy geiniog.

Mae Dylan eisiau dysgu mwy am arian. Yn gyntaf, mae angen iddo wybod am y darnau arian a'r papurau hyn. (4)

## Cwestiynau i'r dosbarth:

1. Beth ydych chi'n meddwl y gallai'r disgiau sgleiniog a'r dail plastig hynny fod?
2. Beth yw cost? Oes gennych chi unrhyw syniadau ynglŷn â beth yw cost?
3. Sut mae arwydd punt yn edrych? Tynnwch lun ar y bwrdd gwyn.
   Gall unrhyw ddisgybl hyderus geisio llunio'r arwydd ar y bwrdd gwyn.
4. Beth am weld beth rydym ni'n ei wybod am arian yn barod?

## Tasgau'r stori

- Defnyddiwch y lluniau a ddarperir i greu pypedau ffon lolipop. Gellir defnyddio'r rhain i actio'r stori wrth ei darllen. Rhowch gopïau o'r cymeriadau a'r propiau i'r disgyblion eu torri allan a'u cysylltu â ffyn lolipop. Mewn parau, gofynnwch i'r disgyblion chwarae rhan Dylan neu Rhiannon ac actio'r stori. Ymhelaethwch ar y gweithgaredd drwy ofyn i'r disgyblion dynnu llun neu beintio golygfa o'r tu mewn i'r siop ar gyfer eu pypedau.
- Gan ddefnyddio pennau, pensiliau, sialc, paent neu drwy dynnu llun â bysedd mewn tywod, gofynnwch i'r disgyblion roi cynnig ar dynnu llun o arwydd £.

